**Adroddiad ynghylch ymweliad â Gwlad y Basg ym mis Gorffennaf 2023**

Prif ffocws yr ymweliad hwn oedd yr Arantzazulab, sef labordy democratiaeth newydd a sefydlwyd fel menter ar y cyd gan y gymdeithas sifil a gwahanol haenau o lywodraeth – llywodraeth leol, llywodraeth daleithiol a Llywodraeth Gwlad y Basg – a hynny ar safle hanesyddol hynod bwysig o ran datblygu hunaniaeth gwlad y Basg.

**Lleoliad**

Yn ystod yr ymweliad hwn, cefais gyfle i weld tirwedd drawiadol Arantzazu a dysgu am ei hanes hynod ddifyr, sy'n rhan bwysig o ddeall rôl y labordy yng nghymdeithas gyfoes Gwlad y Basg. Mae cymuned Arantzazu wedi'i lleoli yn Onati, tref fechan mewn dyffryn prydferth ym mynyddoedd yr Aizkorri. Mae wedi bod yn gyrchfan i bererinion ers diwedd y 1400au, a daeth y fynachlog Ffransisgaidd sydd wedi'i lleoli yno – gyda'i basilica modernaidd beiddgar yn dyddio o 1950 – yn symbol o gefnogaeth i'r iaith Fasgeg a'i diwylliant, a gwrthwynebiad i bolisïau Franco.

**Tarddiad yr Arantzazulab**

Mae'r Arantzazulab yn labordy ar gyfer datblygiadau arloesol cymdeithasol a democrataidd sydd wedi'i leoli yn hen adeilad yr athrofa ger y basilica. Egin y syniad oedd awydd y gymuned Ffransisgaidd, sydd bellach yn heneiddio, i greu gwaddol a fyddai'n gallu adeiladu ar dreftadaeth Arantzazu fel man i fyfyrio ar gymdeithas Gwlad y Basg a'r broses o'i datblygu. Y labordy ei hun yw prif fenter Sefydliad Arantzazu Gaur, a sefydlwyd gan y cyrff a ganlyn: Urdd Ffransisgaidd Arantzazu, Cyngor Taleithiol Gipuzkoa, Llywodraeth Gwlad y Basg, Cyngor Tref Onati, Corfforaeth Mondragon a Sefydliad Kutxa (sy'n gysylltiedig ag un o brif fanciau rhanbarth Gipuzkpoa).

Sefydlwyd yr Arantzazulab yng nghyd-destun ehangach gwaith Talaith Gipuzkoa ar lywodraethu cydweithredol. Dechreuodd y gwaith hwn yn 2016 gyda'r Etorkizuna Eraikiz (EE), sef rhaglen waith a luniwyd ar y cyd â'r gymdeithas sifil leol a phrifysgolion yn y rhanbarth. Hyd yn hyn, amcangyfrifir bod 50,000 o bobl wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. Yn ganolog i'r rhaglen hon mae melin drafod yr EE a labordy Gipuzkoa (sy'n gweithredu ar wahân i'r Arantzazulab ond sydd hefyd yn gysylltiedig â'i waith).

**Ffocws Presennol**

Mae'r Arantzazulab yn canolbwyntio ar ddatblygu'r syniad o lywodraethu cydweithredol, a hynny mewn modd ymarferol ac arbrofol. Mae'r broses hon yn cyfeirio at y datblygiadau arloesol cymdeithasol a democrataidd a fydd yn caniatáu i gymdeithas fanteisio ar ei deallusrwydd cyfunol wrth geisio datrys problemau heddiw ac yfory. Mae enghreifftiau penodol o'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Cynulliad dinasyddion Gipuzkoa, sy'n canolbwyntio'n benodol ar rôl y sector gwledig o ran arwain ar gamau gweithredu ym maes newid hinsawdd
- Cynulliad dinasyddion yn ninas Tolosa, sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant emosiynol

**Argraffiadau Cyntaf**

Yn ystod yr ymweliad cyntaf hwn, gwnaeth nifer o bethau argraff arnaf:

- Presenoldeb menywod yn yr Arantzazulab, a'u hamlygrwydd fel ffigurau allweddol yn y broses o ysgogi newid, gan gynnwys rheolwr gyfarwyddwr y sefydliad, sef Naiara Goia;
- Rôl ganolog yr iaith Fasgeg, sef iaith weithredol y labordy;

- Y pwyslais ar gydweithio rhyngwladol, yn enwedig y diddordeb a ddangosir mewn arloesi cymdeithasol mewn cenhedloedd bach eraill o faint tebyg;
- Y cysylltiad cryf rhwng 'meddwl' a 'gwneud', gan gynnwys cysylltiadau agos â phrifysgolion ac arweinwyr meddwl ym maes arloesi cymdeithasol a democrataidd, fel Xabier Barandiaran a Gorka Espiau;
- Yr ethos cydweithredol sydd wrth wraidd athroniaeth yr Arantzazulab, a hynny yng nghyd-destun gweithgarwch trawsbleidiol a thraws-sectoraidd.

**Cydweithio Posibl**

Roedd rhan helaeth o'n trafodaethau yn canolbwyntio ar y posibiliadau o ran cydweithio, a hynny yng nghyd-destun yr Ysgol Lywodraethu Genedlaethol yng Nghymru a fydd yn cael ei chreu cyn bo hir. Mynegodd rhanddeiliaid amrywiol ddiddordeb cychwynnol mewn ystyried prosiect ar y cyd ynghylch datblygu capasiti newydd ar gyfer arwain gwasanaethau cyhoeddus. Mae papur yn cael ei baratoi ynghylch y camau nesaf posibl.

**Trafodaethau Eraill**

Ochr yn ochr â phrif ddiben y cyfarfod, fe wnes i gwrdd â chynrychiolwyr o wahanol bleidiau gwleidyddol yng Ngwlad y Basg er mwyn trafod datblygiadau cyfredol yng Nghymru a Gwlad y Basg/Sbaen. Cafodd y trafodaethau hyn eu cynnal yn ystod y dyddiau yn dilyn yr etholiadau a gynhaliwyd ledled Sbaen. Felly, un o'r prif bynciau trafod oedd goblygiadau posibl y canlyniadau i Wlad y Basg. Mynegwyd diddordeb arbennig yng ngwaith y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, ac rwyf wedi ymrwymo i rannu canlyniadau gwaith y Comisiwn unwaith y bydd ei adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr y flwyddyn nesaf.